

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair Y Fro (Penodiad ar y Cyd)

## Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair Y Fro (Penodiad ar y Cyd) |
| **Cyf. Swydd:** | V/CS/AA001 |
| **Gradd:** | Prif Swyddog (Awdurdod Lleol) |
| **Cyflog:** | £73,192 - £81,325 ynghyd â thâl atodol o £10,692.96 (bydd telerau ac amodau'r gwasanaeth yn dibynnu ar gyflogwr y GIG neu'r Awdurdod Lleol) |
| **Oriau:** | Yn unol ag amodau gwasanaeth presennol o fewn y GIG neu'r awdurdod lleol. Efallai y bydd angen gweithio mwy nag oriau cytundebol ar brydiau, yn unol ag anghenion y gwasanaeth. |
| **Adran:** | Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro |
| **Swyddogaeth:** | Darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Nghyngor Bro Morgannwg |
| **Prif Leoliad Gwaith:** | Swyddfa Doc y Barri/ Hybrid |

### A Trefniadau Sefydliadol

| | |
|---|---|
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol |
| **Yn gyfrifol am:** | Yr Is-adran Gwasanaethau Oedolion yn yr Awdurdod Lleol a Thîm Ardal y Fro yn y BIP |

### B Diben Y Swydd

Sicrhau y caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig eu harwain a'u darparu mewn modd diogel ac effeithiol ledled Bro Morgannwg, yn unol â safonau a modelau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac yn lleol. Cydweithio â'r Sector Gofal Sylfaenol, y Sector Gwirfoddol, a phartneriaid allweddol eraill i fwrw ymlaen ag amcanion datblygu a gwella gwasanaethau yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol, fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Gofal Iechyd Darbodus a Chynllun Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.

*Bydd deiliad y swydd yn:*

1 Gyfrifol ar ran y Cyngor a'r BIP am ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol integredig diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel i oedolion, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac sy'n cael yr effaith fwyaf posibl o ran bodloni'r angen o fewn cymunedau lleol ledled Bro Morgannwg.

2 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i integreiddio gan ystyried ffyrdd newydd o weithio i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau.

3 Dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/y Cyfarwyddwr Gweithrediadau fel sy'n briodol a bod yn aelod o'u Timau Rheoli Corfforaethol.

4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer datblygu gwasanaethau a moderneiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a rheoli unrhyw newidiadau o ran y gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan ar feysydd cyfrifoldeb y cytunwyd arnynt.

5 Hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu diwylliant a newidiadau ymddygiadol sydd eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau di-dor ar draws rhwystrau sefydliadol a phroffesiynol.



# Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair Y Fro (Penodiad ar y Cyd)
## Swydd Ddisgrifiad (parhau)

6 Defnyddio partneriaethau amlasiantaethol statudol; meithrin perthynas â rhanddeiliaid allanol; a sicrhau pwyslais ar welliannau o ran iechyd, llesiant ac integreiddio gwasanaethau ledled Bro Morgannwg.

7 Arwain a rheoli'r gweithlu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn datblygu timau llawn cymhelliant sydd wedi'u grymuso gan greu amgylchedd lle y gall pawb ragori.

8 Gwella llwybr y claf a sicrhau y caiff amcanion corfforaethol a chenedlaethol y Cyngor a'r BIP eu cyflawni.

9 Sicrhau y caiff targedau ariannol eu bwrw ac y caiff gwasanaethau eu darparu i gyllidebau y cytunwyd arnynt.

10 Sicrhau bod y BIP a'r Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a fframweithiau rheoliadol perthnasol, sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a gwasanaethau gofal iechyd cymunedol ac eilaidd (gan gynnwys gweithredu fel yr unigolyn cyfrifol o ran gofynion safonau gofal).

### C Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

***Cynllunio Strategol a Datblygu Gwasanaethau***

- Dehongli deddfwriaethau, strategaethau, polisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth leol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.
- Dehongli cyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y Cyngor a'r BIP.
- Arwain a bod yn gyfrifol am brosesau cynllunio a datblygu cadarn sydd ar waith i sicrhau y gweithredir arferion asesu anghenion cynhwysfawr, adolygu gwasanaethau a rheoli newid er mwyn ailgyfeirio adnoddau i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol y cytunwyd arnynt.
- Rheoli ar y cyd waith y Tîm Ardal o gyflawni cyfrifoldebau a ddyrennir ar draws yr isadrannau ar ran y Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol.
- Rheoli'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau Oedolion ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd, arwain yr Ardal Leol a'i datblygiad i fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan iechyd y cyhoedd sy'n gallu chwarae rhan weithredol a chyflawni swyddogaeth gyfranogol i hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol da i bawb a lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad, gofal a thriniaeth ar draws gwasanaethau'r Clwstwr / yr Ardal Leol.
- Arwain pan fo'n briodol y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau ehangach a chymryd rhan ynddo, i wella iechyd dinasyddion a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn yr ardal ac ar lefel Clwstwr.

***Darparu Gwasanaethau***

- Arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth gwasanaethau lleol integredig er mwyn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, datblygu Cynghrair y Fro pan fo'n briodol a datblygu trefniadau ar y cyd sy'n sicrhau bod gwasanaethau cydlynol a chadarn yn cael eu darparu.
- Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a sicrhau bod cynlluniau newid yn cael eu gweithredu, yn unol â strategaethau cenedlaethol a lleol ac o fewn fframweithiau ariannol a rheoli perfformiad y cytunwyd arnynt.










- Drwy gydweithio â thîm rheoli'r Ardal Leol, sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer llywodraethu corfforaethol a gweithredu Fframweithiau Sicrwydd Risg Corfforaethol y sefydliad.
- Monitro perfformiad a chychwyn camau gweithredu priodol i sicrhau y cyflawnir ac y cynhelir y safonau priodol.

***Tasgau a Dyletswyddau yn ymwneud â'r Defnyddiwr Gwasanaeth***

- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid, y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y gwaith o gynllunio, diogelu a monitro gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sicrhau y bodlonir gofynion statudol a chyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a hynny gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau gofal integredig, yn unol â chanllawiau a sicrhau dehongliad a darpariaeth leol.
- Sicrhau dull ymatebol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer wrth ddarparu gwasanaethau lleol.

***Rheoli Perfformiad***

- Sicrhau y cefnogir pob swyddogaeth gan wybodaeth gadarn ac effeithiol sy'n cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Sicrhau bod systemau cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad, a phob mecanwaith adrodd cynnydd yn darparu ar gyfer y defnydd effeithiol o adnoddau ac yn dangos gwaith rheoli risg trylwyr.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth a Caldicott, yn enwedig yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal/claf.
- Sicrhau y caiff targedau mewn meysydd cyfrifoldeb eu bwrw, gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael.

***Adnoddau Dynol***

- Bod yn gyfrifol am yr Is-adran Gwasanaethau Oedolion sy'n rhan o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a bod yn gyfrifol am reoli ar y cyd Dîm Ardal y Fro sy'n rhan o'r BIP.
- Rheoli pob tîm perthnasol yn effeithiol ar draws y ddau sefydliad a sicrhau y lleiheir achosion o ddyblygu ymdrech, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfunol y BIP a'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sicrhau bod gan bob aelod o staff sydd dan arweiniad rheolwr llinell amcanion unigol a thîm clir, sy'n cael eu monitro'n rheolaidd, er mwyn cyflawni amcanion corfforaethol a gweithrediadol.
- Sicrhau y cyfathrebir yn glir â phob aelod o staff sydd dan arweiniad rheolwr llinell a bod atebolrwydd wedi'i ddiffinio'n dda.
- Cefnogi a datblygu aelodau staff, gan sicrhau y datblygir ac y cyflawnir holl amcanion y Cyngor a'r BIP.
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu a datblygu aelodau eraill o staff ar draws y ddau sefydliad, yn ôl yr angen.
- Arwain y gwaith o ddatblygu cymysgedd sgiliau o fewn timau mewn meysydd cyfrifoldeb.

***Adnoddau Ariannol***

- Bod yn bennaf gyfrifol am reoli'r defnydd effeithiol o gyllidebau dirprwyedig (mewn ymgynghoriad â chydweithwyr perthnasol) fel y diffinnir yn fframwaith gwneud penderfyniadau dirprwyedig y Cyngor a'r BIP.
- Gweithredu fel deiliad y gyllideb ar gyfer pob gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion ac amrywiaeth o wasanaethau iechyd yn y gymuned ar ran trigolion Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad teg i bawb gan ddangos defnydd effeithiol o adnoddau cyfunol i fwrw targedau cenedlaethol a lleol y cytunwyd arnynt.





- Gweithio’n agos â rheolwyr Cyllid priodol o fewn y Cyngor a'r BIP, drwy gefnogi'r Cyfarwyddwr Adrannol a’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn trafodaethau lleol gan arwain at gwblhau’n llwyddiannus wasanaeth cytbwys a fframwaith ariannol ar gyfer y Cyngor a’r BIP.

**D Cymhwysedd**

Chi sy’n gyfrifol am gyfyngu eich gweithredoedd i’r rhai hynny rydych chi o'r farn eich bod yn gymwys i ymgymryd â nhw. Os oes gennych chi unrhyw amheuon ynglŷn â’ch cymhwysedd yn ystod eich dyletswyddau, dylech chi siarad â’ch rheolwr llinell/goruchwylydd yn syth.

**E Rheoli Risg**

Mae’n elfen safonol o rôl a chyfrifoldeb pob aelod o staff ei fod yn cyflawni swyddogaeth ragweithiol o ran rheoli risg yn rhan o’i holl weithredoedd. Mae hyn yn cynnwys asesu risg ym mhob sefyllfa, cymryd camau priodol a rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, digwyddiadau a osgowyd o drwch blewyn neu beryglon.

**F Rheoli Cofnodion**

Fel un o weithwyr y Cyngor a’r BIP, rydych chi'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am bob cofnod yr ydych chi’n ei gasglu, yn ei greu neu’n ei ddefnyddio yn rhan o’ch gwaith, pa un ai'n gofnod papur neu’n gofnod cyfrifiadurol. Ystyrir pob cofnod o'r fath yn gofnodion cyhoeddus, ac mae gennych chi ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth (hyd yn oed ar ôl i weithiwr adael y Cyngor/BIP). Dylech chi ymgynghori â’ch rheolwr os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch a yw’r cofnodion yr ydych chi’n gweithio â nhw yn cael eu rheoli'n gywir.

**G Gofynion Iechyd a Diogelwch**

Mae gan holl weithiwr y Cyngor a’r BIP ddyletswydd gofal statudol o ran eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu eu diffyg gweithredoedd. Mae angen i weithwyr gydweithio â’r rheolwr o ran bodloni eu dyletswyddau cyfreithiol a dylent adrodd unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol.

**H Datganiad Hyblygrwydd**

Mae cynnwys y Disgrifiad Swydd hwn yn amlinelliad o’r swydd ac nid yw felly’n gatalog manwl gywir o ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Felly, bwriedir i’r Disgrifiad Swydd hwn fod yn hyblyg ac yn destun adolygiad a diwygiad yng ngoleuni amgylchiadau newidiol, yn dilyn ymgynghori â deiliad y swydd.

**I Cyfrinachedd**

Mae angen i holl weithwyr y BIP a’r Cyngor gadw cyfrinachedd aelodau'r cyhoedd ac aelodau staff yn unol â’r holl bolisïau perthnasol.

**J Cydraddoldeb**

Bydd y Cyngor a'r BIP yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau y caiff aelodau staff eu recriwtio, eu rheoli, eu datblygu, eu hyrwyddo a'u gwobrwyo ar sail teilyngdod ac y rhoddir cyfle cyfartal iddynt i gyd. Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am ei ymddygiad proffesiynol a phersonol ei hun ac mae angen i’r holl aelodau o staff ymddwyn mewn modd na fydd yn sarhau unrhyw un arall.



# Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair Y Fro (Penodiad ar y Cyd)

## Manyleb Person

| | HANFODOL | DYMUNOL | PROFIR DRWY |
|---|---|---|---|
| 1. Cymwysterau | • Cymhwyster i lefel gradd Meistr (neu brofiad proffesiynol cyfwerth)<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad rheoli trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus a/neu gyrsiau rheoli ffurfiol | • Cymhwyster rheoli cydnabyddedig<br>• Cymhwyster proffesiynol perthnasol<br>• Cymhwyster rheoli prosiectau cydnabyddedig | • Tystysgrifau |
| 2. Profiad | • Profiad sylweddol o reoli gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol yn llwyddiannus ar lefel rheoli uwch<br>• Profiad o arwain gwaith partneriaeth ar draws ystod eang o asiantaethau a ffiniau proffesiynol (ac mewn cyd-destun gwleidyddol)<br>• Profiad o reoli ac arwain newid ar lefel strategol a gweithredol<br>• Profiad o ddefnyddio sgiliau rheoli perfformiad yn llwyddiannus<br>• Profiad helaeth o reoli arian ac adnoddau<br>• Hanes llwyddiannus o ddatblygu a gwella gwasanaethau<br>• Profiad o reoli rhanddeiliaid yn effeithiol a gweithio'n gadarnhaol gyda defnyddwyr a gofalwyr | • Comisiynu gwasanaethau a neu negodi contractau | • Ffurflen Gais<br>• Cyfweliad<br>• Geirdaon |
| 3. Gwybodaeth/ Sgiliau | • Gwybodaeth helaeth am y prif faterion strategol, mentrau a fframweithiau partneriaeth yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Sgiliau arwain, trefnu a rheoli pobl effeithiol<br>• Y gallu i negodi a dylanwadu ar ganlyniadau a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n gyson ag anghenion y gwasanaeth<br>• Sgiliau effeithiol o ran rheoli newid a rheoli perfformiad<br>• Gallu amlwg i weithredu fframweithiau rheoli perfformiad ac ansawdd | • Gwybodaeth am fethodolegau ymchwil a'r defnydd ohonynt<br>• Cymraeg ysgrifenedig neu lafar | • Ffurflen Gais<br>• Cyfweliad<br>• Geirdaon<br>• Canolfan Asesu |





| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Y gallu i feddwl a gweithredu'n strategol ac yn gadarnhaol tra'n rheoli a gwella gwasanaeth gweithredol prysur.<br>• Y gallu i ddefnyddio gwybodaeth, TG ac offer a thechnegau rheoli prosiectau<br>• Y gallu i reoli galw a chynllunio capasiti<br>• Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasau gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn enwedig yn ystod newid<br>• Dealltwriaeth glir a gallu amlwg i reoli pob agwedd ar risg | | |
| **4. Nodweddion Personol** | **HANFODOL** | **DYMUNOL** | **PROFIR DRWY** |
| | • Sgiliau rhyngbersonol a dylanwadu rhagorol ynghyd â'r gallu i gyfathrebu gwybodaeth gymhleth a sensitif, a rheoli'n ddiplomyddol<br>• Sgiliau rhifedd, llythrennedd a datrys problemau<br>• Y gallu i archwilio a dadansoddi gwybodaeth gymhleth a nodi opsiynau a datrysiadau.<br>• Rheoli gwrthdaro gyda blaenoriaethau gwasanaeth a staff<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a chaffael sgiliau / gwybodaeth newydd yn y pum mlynedd diwethaf.<br>• Y gallu i weithio'n hyblyg ac ymdopi â llwyth gwaith mawr ac annisgwyl | | • Ffurflen Gais<br>• Cyfweliad<br>• Geirdaon<br>• Canolfan Asesu |



Ynys y Barri

# Cyngor Bro Morgannwg
## Amdanom ni

Yn 2021 cyhoeddwyd ein Llyfr Diwylliant. Mae'r llyfr hwn wedi'i gynllunio fel dewis amgen i lawlyfr cyflogai, fel canllaw ar 'sut rydym yn gwneud pethau yma' gan ganolbwyntio ar ethos y sefydliad – ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

Mae'n ein hatgoffa ni, ac yn dweud wrth weithwyr y dyfodol, pwy ydym ni, beth a wnawn, sut rydym yn gwneud hynny a pham rydym yn ei wneud. Diffinnir ein diwylliant drwy gyfraniad pob un ohonom. Mae'n dangos yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn gyflogai'r Cyngor drwy werthoedd, credoau ac ymddygiadau a rennir. Mae rhannu ein straeon yn y llyfr hwn yn dod â'r pethau hyn yn fyw ac yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ar y ffordd y mae ein pedwar gwerth sefydliadol yn dylanwadu arnom: Uchelgeisiol, Balch, Agored, Gyda'n Gilydd.

### Ynglŷn â'n gweledigaeth

Mae gan Gynghorau rôl hollbwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cyrraedd pob aelod o gymdeithas ac mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi agenda uchelgeisiol i Gyngor Bro Morgannwg hyd at 2025.

Mae ein cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Dim ond drwy gydweithio, parchu a gwrando ar ein gilydd y gallwn lwyddo i ateb yr amryw heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus heddiw. Mae ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn amrywiol, gan gynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, ein partneriaid ym maes iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn ogystal â chyrff sector cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned a'n cymunedau.

Wrth gyflwyno'n cynllun ac adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gennym eisoes, rydym yn hyderus y gallwn wireddu gweledigaeth y Cyngor sef 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'.

### Ynglŷn â'r Fro


Mae Bro Morgannwg yn gartref i bwynt mwyaf deheuol Cymru. Mae'n cynnwys trefi bywiog a phentrefi gwledig, ac ar ei hymyl ceir gogoniant yr Arfordir Treftadaeth.

Mae'r Barri yn dref arfordirol fywiog gyda Stryd Fawr brysur a'r Goodsheds a'r Ardal Arloesi - cyrchfan siopa, bwyta ac ymlacio. Mae Ynys y Barri yn enwog am draethau euraid, difyrrwch teuluol a'i chytiau traeth lliwgar.


Mae Penarth gyferbyn â Bae Caerdydd ac mae'n dref glan môr gain gyda phier Fictoraidd, pafiliwn Art Deco a marina modern. Mae parciau gwych yn cysylltu'r arfordir â chanol y dref draddodiadol gyda'i siopau annibynnol a'i harcêd.

Ystyrir y Bont-faen yn un o leoedd mwyaf ffasiynol Cymru ac mae'n cynnwys siopau a chaffis annibynnol, adeiladau hanesyddol a Gardd Berlysiau. Gerllaw mae cestyll hanesyddol ac mae cefn gwlad hardd y tu hwnt yn gartref i gynhyrchwyr bwyd a diod arobryn.

Mae tref farchnad hanesyddol Llanilltud Fawr yn llawn adeiladau diddorol a chasgliad gwych o gerrig cerfiedig Celtaidd yn Eglwys Illtud Sant. Gerllaw, mae 14 milltir o Arfordir Treftadaeth Morgannwg gwyllt yn cynnig teithiau cerdded ar ben clogwyni a thraethau sy'n addas ar gyfer archwilio'r pyllau glan môr, syrffio a chestyll tywod.


Penarth


Y Bont-faen


Llanilltud Fawr


Yr Arfordir Treftadaeth